LLYWODRAETHWYR SYLFAEN
FFEIL FFEITHIAU 04/09

CYFLWYNIAD

Mae cynnwys Llywodraethwyr Sylfaen ar gyrff llywodraethu ysgolion a Gynorthwyir ac a Reolir yn un o nodweddion arbennig ysgol ffydd. Mae'r Llywodraethwyr Sylfaen yn cynrychioli'r cysylltiad hanesyddol gyda sefydlu'r ysgol yn wreiddiol a gyda'i hethos crefyddol arbennig.

Maent yn cael eu cynrychioli hefyd ar gyrff llywodraethu ysgolion sylfaen a sefydlwyd o dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 i ddisodli'r dewis o ysgolion a gynhelir â grant, lle roedd llywodraeth ganolog cyn hynny wedi darparu cyllid yn uniongyrchol i'r ysgol. Mewn Ysgolion Sylfaen, fel mewn ysgolion a Gynorthwyir yn Wirfoddol, ond nid mewn ysgolion a Reolir yn Wirfoddol, mae'r corff llywodraethu yn cyflogi staff yr ysgol a'r corff llywodraethu sydd â'r prif gyfrifoldeb dros drefniadau derbyn. Y corff llywodraethu neu sefydliad elusennol sydd yn berchen ar dir ac adeiladau'r ysgol.

Mae Llywodraethwyr Sylfaen mewn sawl ffordd yn debyg i lywodraethwyr eraill. Mae pob llywodraethwr yn gyfrifol am sefydlu fframwaith strategol i'r ysgol trwy osod nodau ac amcanion ar gyfer yr ysgol, polisïau a thargedau ar gyfer cyflawni nodau ac amcanion ac adolygu'r cynnydd a wneir yn rheolaidd. Mae eu dyletswyddau yn cynnwys monitro'r cwricwlwm, cyllid, personél ac eiddo i sicrhau bod yr ysgol yn gweithio'n effeithiol. Mae lleiafrif yn lywodraethwyr ex-officio (trwy hawl swydd). Fel rheol y rhain yw'r ficer neu'r offeiriad lleol ac yn achlysurol, cynrychiolwyr ymddiriedolaethau neu gyrff eraill.

FFEITHIAU ALLWEDDOL

- Mae llywodraethwyr sylfaen yn aelodau o gyrff llywodraethu ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol, ysgolion sylfaen ac ysgolion a reolir yn wirfoddol. Maent yn cael eu penodi i sicrhau bod cymeriad crefyddol neilltuol yr ysgol yn cael ei gadw a'i ddatblygu (os oes iddi gymeriad crefyddol) ac i sicrhau cydymffurfiad gyda'r weithred ymddiriedolaeth, os oes un ar gael.

- FE'U penodir am dymor o hyd at 4 blynedd. Rhaid enwi'r person/personau sydd i benodi llywodraethwyr sylfaen yn Offeryn Llywodraethu'r Ysgol, ynghyd â nifer y llywodraethwyr sylfaen sydd i'w penodi. Mewn **ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol** rhaid i nifer y llywodraethwyr sylfaen fod yn fwy na nifer y llywodraethwyr eraill o ddau o leiaf*. Rhaid i'r llywodraethwyr sylfaen hefyd gynnwys dau lywodraethwr o leiaf sydd, pan gawsant eu penodi, yn rieni disgyblion yn yr ysgol.
  **Cyfeirier at reoliad 19 yn Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005*

- Lle mae Offeryn Llywodraethu yn darparu i lywodraethwr sylfaen weithredu'n ex-officio, dylid gwneud darpariaeth i lywodraethwr sylfaen weithredu yn lle llywodraethwr sylfaen ex-officio os

  (i) nad yw'r llywodraethwr sylfaen ex-officio yn gallu neu os nad yw'n fodlon gweithredu fel llywodraethwr neu os yw wedi cael ei dynnu oddi ar y corff llywodraethu, neu
  (ii) lle mae lle gwag yn swydd llywodraethwr ex-officio.

Llywodraethwyr Sylfaen:

- MAE ganddynt yr un pwerau, dyletswyddau a chyfrifoldebau â llywodraethwyr eraill ac mae ganddynt yr un hawliau â llywodraethwyr eraill. Ond, mae gan lywodraethwyr sylfaen rhai cyfrifoldebau cyfreithiol ychwanegol i sicrhau bod:

  1. cymeriad crefyddol neilltuol yr ysgol yn cael ei gadw a'i ddatblygu;
  2. yr ysgol yn cael ei rhedeg yn unol â'i gweithred ymddiriedolaeth;
  3. cwricwlwm addysg grefyddol yn unol â pholisi'r esgobaeth, a;
  4. addoli ar y cyd yn unol â chredoau ac ymarferion crefydd neilltuol;
  5. lle mae gan ysgol lywodraethwyr sylfaen, rhaid i'r llywodraethwyr sylfaen gymeradwyo offeryn llywodraethu drafft cyn y gall y corff llywodraethu ei gyflwyno i'r Ymddiriedolwyr/Awdurdodau'r Esgobaeth ac yn eu tro i'r AALl, er mwyn ei ddiwygio neu ei newid.
  6. gall llywodraethwyr sylfaen ysgolion a reolir yn wirfoddol benderfynu pa ddefnydd a wneir o'r eiddo ar y Sul.

- MAE'N ofynnol iddynt, fel llywodraethwyr eraill, i ymarfer eu barn gorau wrth gyfrannu ar benderfyniadau'r corff llywodraethu.

- MAENT yn gymwys i gael eu hatal rhag cwblhau eu tymor mewn swydd os ydynt yn methu â mynychu cyfarfodydd y corff llywodraethu am fwy na chwe mis, heb ganiatâd y corff llywodraethu.

- GALL y person a wnaeth eu penodi gael gwared ohonynt. Gall y person a enwir yn yr Offeryn Llywodraethu sydd â hawl i gael gwared ar lywodraethwr sylfaen ex-officio wneud hynny. Rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig i glerc y corff llywodraethu ac i'r llywodraethwr dan sylw.

- GALL y corff llywodraethu wahardd llywodraethwr sylfaen trwy gynnig, am holl gyfarfodydd y corff llywodraethu, neu unrhyw gyfarfodydd y corff llywodraethu, am hyd at 6 mis am resymau fel a nodir yn **Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 (Rheoliad 49)**

Llywodraethwyr Sylfaen:

- NI ALLANT weithredu'n unigol oni bai bod tasg benodol wedi'i rhoi iddynt gan y corff llywodraethu, yn rhoi pŵer i'r llywodraethwr unigol i weithredu ar ei ran.

- NI ALLANT, fel gyda phob categori arall o lywodraethwr, chwarae rhan ym mhenderfyniadau'r corff llywodraethu pan fo ganddynt ddiddordeb personol ac/neu ariannol yng nghanlyniad y penderfyniad.

- NI ALLANT, fel gyda phob categori arall o lywodraethwr, ddatgelu manylion sydd yn annhebygol o gael eu cofnodi yn y cofnodion, hyd yn oed os nad yw'r manylion wedi'u hystyried yn gyfrinachol gan y corff llywodraethu.

Cofiwch, fel pob llywodraethwr, gall Llywodraethwyr Sylfaen elwa oddi wrth hyfforddiant. Gellir cael gwybodaeth ychwanegol hefyd gan swyddfa cefnogi llywodraethwyr yr AALl, awdurdod yr esgobaeth a thrwy linell gymorth Llywodraethwyr Cymru 0845 6020100.

Deunydd cyfeirio hanfodol:
Canllaw i'r Gyfraith i Lywodraethwyr Ysgolion; Llawlyfr Llywodraethwyr Ysgolion yng Nghymru; Egwyddorion Ymddygiad i Lywodraethwyr yng Nghymru; Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005.

D.S. Dylid darllen y Ffeil Ffeithiau hon ar y cyd gyda'r deunydd a restrir uchod a gyda'r wybodaeth a gynhyrchir gan eich AALl ac awdurdod yr esgobaeth lle mae'n briodol.